ELL 16-02(p.3)

**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

# Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru

# Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales

# CYNLLUN CORFFORAETHOL

## 2003/2004 i 2005/2006

*Hybu addysg a hyfforddiant trwy hyrwyddo ansawdd a chydlyniad*

**Gorffennaf 2002**

AC/CM/0250

© AWDURDOD CYMWYSTERAU, CWRICWLWM AC ASESU CYMRU (ACCAC) 2002

ISBN 1 86112 412 0

Gellir copïo rhannau o'r ddogfen hon ar yr amod bod y ffynhonnell yn cael ei chydnabod ac mai dim ond yn y sefydliad addysgol lle defnyddir hwy y gwneir y copïau hynny. Ni cheir gwerthu, hurio na benthyca'r copïau hynny i unrhyw unigolyn, corff na sefydliad arall. Erys pob hawl arall gyda'r cyhoeddwr.

Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, Adeiladau'r Castell, Stryd Womanby, Caerdydd CF10 1SX

Ffôn: (029) 2037 5400 Ffacs: (029) 2034 3612 Ebost: info@accac.org.uk

N0000000000000000000000000003642.rtf

# Cynnwys

## 1. Crynodeb gweithredol

## 2. Cyfeiriad at y dyfodol – fesul amcan

Amcan 1: Datblygu fframwaith cymwysterau cydlynol ac integredig o safon uchel sy'n bodloni anghenion Cymru; yn gwella lefelau sgiliau a chyrhaeddiad addysgol ac yn hawlio hyder y cyhoedd

Amcan 2: Datblygu fframwaith cwricwlwm ac asesu cydlynol ac integredig sy'n codi safonau cyrhaeddiad ac sy'n ehangu cyfleoedd addysgol

Amcan 3: Comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth Cymraeg a dwyieithog o ansawdd uchel i gefnogi addysgu'r Gymraeg, a phynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg ac agweddau ar y cwricwlwm ysgol sy'n benodol i Gymru.

Amcan 4: Gwella ffynonellau gwybodaeth yr Awdurdod gydag ymchwil wedi'i thargedu a darparu gwybodaeth amserol am ddatblygiadau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Amcan 5: Sicrhau trefniadaeth effeithiol ac effeithlon

## 3. Atodiadau

3.1 Aelodaeth, staffio a swyddogaethau

3.2 Crynodeb o wariant arfaethedig fesul amcan

3.3 Dangosyddion perfformiad a mesurau allbwn

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **AALl** | Awdurdod Addysg Lleol |
| **ABCh** | Addysg Bersonol a Chymdeithasol |
| **ACCAC** | Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru/the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales |
| **AGr** | Addysg Grefyddol |
| **AVCE** | Tystysgrif Addysg Alwedigaethol Uwch |
| **CA** | Cyfnod Allweddol |
| **CBAC** | Cyd-bwyllgor Addysg Cymru |
| **CCEA** | The Northern Ireland Council for the Curriculum Examinations and Assessment |
| **CYSAG** | Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol |
| **DfTE** | Adran Hyfforddiant ac Addysg, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| **ELWa** | Education and Learning Wales, sef y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| **GNVQ** | Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol |
| **HNC** | Tystygrif Genedlaethol Uwch |
| **HND** | Diploma Genedlaethol Uwch |
| **ISB** | Cyllideb Buddsoddi i Gynilo |
| **NOS** | Safonau Galwedigethol Cenedlaethol |
| **NVQ** | Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol |
| **PSAG** | Project and Standards Approval Group |
| **QAA** | Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch |
| **QCA** | Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm |
| **SQA** | Scottish Qualifications Authority |
| **SSB** | Cyrff Gosod Safonau |
| **SSC** | Cynghorau Sgiliau'r Sector |
| **TAG** | Tystysgrif Addysg Gyffredinol |
| **TG** | Technoleg Gwybodaeth |
| **TGAU** | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd |
| **TGCh** | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| **UPN** | Rhif Disgybl Unigryw |
| **VCE** | Tystysgrif Addysg Alwedigaethol |
| **WRE** | Addysg Gysylltiedig â Gwaith |

# 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC), yw prif gorff ymgynghorol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion yn ymwneud â phob cymhwyster (ac eithrio addysg uwch) a chwricwlwm ac asesu mewn ysgolion.

Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn dangos sut y bydd yr Awdurdod yn cyfrannu at nod Llywodraeth Cynulliad Cymru o ddatblygu'n wlad gynhwysol, gynaliadwy ac mwy cyfartal. Cefnoga'r Cynllun Corfforaethol y themâu a'r blaenoriaethau strategol a nodwyd gan ganolbwyntio arnynt yng nghylchoedd cyllideb y presennol a'r dyfodol, sef:

- gweithredu'n rhagweithiol ac yn ataliol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau yn gynnar a chynnig mwy o gymorth lle mae ei angen fwyaf;
- adeiladu cyfleoedd i Gymru fod yn genedl glyfar trwy gynyddu sgiliau ac arloesedd a hybu cryfderau creadigol;
- sicrhau bod mwy o bobl mewn gwaith;
- cryfhau camau gweithredu i gefnogi cymunedau;
- creu Cymru ddwyieithog y mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ffynnu ynddi; a
- gostwng olion ecolegol Cymru – y galw y mae Cymru yn ei wneud ar adnoddau'r ddaear

Hybu addysg a hyfforddiant trwy hyrwyddo ansawdd a chydlyniad yw prif nod ACCAC. Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu cynlluniau strategol ACCAC am y tair blynedd nesaf, 2003/04–2005/06 ac yn rhoi manylion strategaethau'r Awdurdod ar gyfer cyrraedd y nod trwy:

- sicrhau ansawdd a safonau mewn cymwysterau allanol y tu allan i addysg uwch;
- adolygu pob agwedd ar y cwricwlwm ysgol a'r trefniadau asesu statudol ar gyfer ysgolion a gynhelir;
- comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth i gefnogi addysgu'r Gymraeg, pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg ac agweddau ar y Cwricwlwm sy'n benodol i Gymru;
- cynghori ar raglenni ymchwil a datblygu priodol (a'u cyflawni fel sy'n briodol); a
- chyhoeddi a rhannu gwybodaeth yn ymwneud â chymwysterau, cwricwlwm ac asesu yng Nghymru.

Dyma'n blaenoriaethau pwysicaf:

- sicrhau bod y fframwaith o gymwysterau yn bodloni anghenion dysgwyr a Chymru;
- sicrhau fframwaith cwricwlwm ac asesu integredig sy'n:
  - darparu addysg eang a chytbwys
  - ymestyn cyfleoedd
  - codi safonau cyrhaeddiad;
- comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth Cymraeg a dwyieithog o ansawdd uchel ;
- cynghori'r Cynulliad ar bolisïau addysgol fel sy'n briodol; a
- sicrhau bod yr Awdurdod yn cael ei reoli'n effeithlon ac yn effeithiol.

## Cyd-destun

Mae ACCAC yn rhannu gweledigaeth y Cynulliad am addysg a dysgu gydol oes:

> *'…y bydd gan Gymru enw da yn rhyngwladol fel Gwlad sy'n Dysgu: lle sy'n rhoi buddiannau dysgwyr yn gyntaf; sy'n cynnig mynediad ehangach a chyfleoedd i bawb; sy'n ceisio rhagoriaeth drwyddi draw*

Y fframweithiau polisi sydd ar waith gan y Cynulliad i hyrwyddo'r weledigaeth hon, ac sy'n dylanwadu ar weithgareddau'r Awdurdod yw www.gwellcymru.com *Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant, A Winning Wales, Y Wlad sy'n Dysgu, Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Cenedlaethol i Gymru, Cymru Ar-lein* a'r *Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth*

Yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer addysg a dysgu gydol oes yng Nghymru yn ôl *Y Wlad sy'n Dysgu*, yw:

- gosod safonau a disgwyliadau uchel;
- sicrhau mai buddiannau dysgwyr sy'n cael y flaenoriaeth;
- sicrhau bod llwybrau academaidd, technegol a galwedigaethol yn derbyn yr un parch ;
- goresgyn rhwystrau rhag dysgu;
- sicrhau bod llai o anghyfartaledd mewn cyrhaeddiad;
- cefnogi arloesedd yn gyson er mwyn canolbwyntio ar anghenion yr economi yn y dyfodol;
- cadarnhau partneriaethau gydag ymarferwyr ac eraill;
- defnyddio arian yn ddoeth;
- sefydlu polisïau ar dystiolaeth gadarn; ac
- ymateb i anghenion ac amgylchiadau Cymru.

Gydol cyfnod y Cynllun bydd yr Awdurdod yn nodi'r datblygiadau fydd yn ymddangos, megis Adolygiad 14-19, datblygu'r Cam Sylfaen ac Adolygu'r Polisi Iaith Gymraeg.

## Adnoddau

Adeg ysgrifennu'r Cynllun hwn, mae'r Awdurdod yn wynebu nifer o ganlyniadau anhysbys mewn perthynas â nifer o adolygiadau polisi pwysig gan y Cynulliad megis y rhai a enwyd uchod. Amlinellir manylion y tybiaethau sy'n sail i oblygiadau adnoddau'r Cynllun hwn o fewn pob Amcan.

Yn y cylch cynllunio cyllideb diwethaf, addaswyd llinell sylfaen yr Awdurdod ar gyfer 2002/03 o £10.495 miliwn i £12.149 miliwn. Fodd bynnag nid oedd yr addasiadau a wnaed i'r terfynau mynegol ar gyfer 2003/04 a thu hwnt yn adlewyrchiad cyflawn o'r cynnydd parhaus oedd ei angen yn lefel y cyllid.

Yng nghynigion drafft y Cynulliad ar gyfer y gyllideb ar 7 Hydref 2002, dyrannwyd £12.104 miliwn i'r Awdurdod ar gyfer 2003/04, yn cynyddu i £12.483 miliwn yn 2004/05 ac i £13.511 miliwn yn 2005/06. Mae'r ffigurau yn y Cynllun Corfforedig yn unol â chynigion drafft y Cynulliad ar gyfer y gyllideb. Cyflawnwyd hyn drwy ail-amlinellu'r gwariant ar weithgarwch presennol. Fodd bynnag, byddai unrhyw ostyngiad yn y dyraniad drafft ar gyfer 2003/04 yn creu anawsterau arwyddocaol i'r Awdurdod wrth gynnal y gweithgarwch presennol.

Mae'r adolygiadau hefyd yn adlewyrchu'r ffaith na fydd adnoddau ar gyfer cryfhau gweithgarwch yr Awdurdod ymhellach ar gael tan 2004/05 ar y cynharaf. Golyga hyn y bydd yn rhaid gohirio'r cynigion i:

- galluogi'r Awdurdod, ynghyd â QCA a CCEA i wella'i ddull o fonitro safonau a chysondeb wrth asesu cymwysterau galwedigaethol;
- penodi staff i ymgymryd ag unrhyw waith newydd a fydd yn codi o Arolwg 14-19, y gwaith o ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen a chynnal arolwg o'r Gymraeg mewn addysg;
- datblygu adnodd o ddeunyddiau asesu dewisol ar gyfer plant 7 oed a datblygu gwaith i gynorthwyo Cyfnod Allweddol 1 a'r Cyfnod Sylfaen;
- penodi swyddog i ymdrin â materion cydraddoldeb;
- gwneud gwelliannau arwyddocaol i wefan ACCAC; ac
- ymgymryd â rhaglen ymchwil llawnach.

Ffactor arwyddocaol arall o fewn y Cynllun hwn yw y bwriedir i gyfranogiad yr Awdurdod yn y gwaith o gynhyrchu'r profion Sgiliau Allweddol ddod i ben ym mis Gorffennaf 2004. Felly, at ddibenion y Cynllun hwn, mae'r Awdurdod wedi cymryd yn ganiataol y bydd cyllid y Sgiliau Allweddol yn cael ei gyfeirio i'r gwaith o adolygu'r Cwricwlwm Cenedlaethol a chomisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth Cymraeg a dwyieithog.

Ceir manylion pellach am yr adnoddau hyn dan bob Amcan.

## 2. CYFEIRIAD AT Y DYFODOL – FESUL AMCAN

**Amcan 1**

**Datblygu fframwaith cymwysterau cydlynol ac integredig o safon uchel sy’n bodloni anghenion Cymru ac yn gwella lefel sgiliau a chyrhaeddiad addysgol ac yn hawlio hyder y cyhoedd**

### Gorolwg

Y cyd-destun polisi ar gyfer yr Amcan hwn yw blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru a amlinellir yn *www.gwellcymru.com* (Mai 2000) ac *Y Wlad Sy’n Dysgu* (Awst 2001), y *Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth* (Chwefror 2002) a chanlyniadau adolygiad Cam 14-19.

Ein gweledigaeth barhaus yw y bydd gan Gymru fframwaith cymwysterau cydlynol ac integredig sy’n darparu sylfaen ar gyfer cyrhaeddiad ac sydd**:**

- yn bodloni anghenion unigol drwy ddarparu cymwysterau priodol, yn y Gymraeg a’r Saesneg, sy’n hybu cydraddoldeb cyfle ac yn cydnabod cyrhaeddiad mewn dysgu a hyfforddi
- yn hygyrch, yn gynhwysol a hydrin tra’n cynnal safonau uchel ac yn hawlio hyder y cyhoedd
- yn hybu dysgu gydol oes ac yn darparu mynediad i ddysgu ac yn annog unigolion i fod yn aelodau cyfrifol o’r gymuned leol a’r gymuned ehangach
- wedi ei llunio i gefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy ac annog arloesedd trwy ddarparu ‘ffrâm ddringo’ briodol i unigolion er mwyn iddynt ddatblygu’r sgiliau y mae eu hangen ar Gymru i ffynnu.

Dylai’r gweithgarwch a gynllunnir yn yr Amcan hwn sicrhau’r **canlyniadau cyffredinol** canlynol:

- canran uwch o ddysgwyr yng Nghymru yn cael mynediad i gymwysterau allanol ac yn eu hennill
- system gymwysterau o ansawdd uchel sy’n fwy cydlynol, tryloyw a hydrin
- anghenion sgiliau Cymru yn cyd-fynd yn well â’r cymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr ac a ddilynir ganddynt
- amrediad addas o gymwysterau cyfrwng Cymraeg ar gael.

## Datblygu fframwaith cydlynol ac integredig a datblygiadau polisi eraill

Mae'r Awdurdod, ar y cyd â'r awdurdodau rheoleiddio yn Lloegr (QCA), Gogledd Iwerddon (CCEA) a, lle mae'n briodol, Yr Alban (SQA), wedi bod yn gweithio ers 1997 i sefydlu Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ar gyfer yr holl gymwysterau (y tu allan i addysg uwch). Yn ystod cyfnod y Cynllun hwn, bydd yr awdurdodau rheoleiddio yn cydweithio i adolygu'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol sy'n bodoli eisoes. Gan weithio ar y cyd â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) byddwn yn parhau i esbonio'r berthynas rhwng y Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch a'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Ar yr un pryd, bydd gwaith yn parhau i resymoli'r ddarpariaeth bresennol. Bydd yr Awdurdod yn parhau i gyfrannu at ddatblygu Fframwaith Cymwysterau a Chredyd i Gymru. Ni fydd hwn yn disodli'r Fframweithiau presennol ond yn cyd-fynd â hwy.

Bydd y datblygiadau hyn yn ystyried cyd-destun ehangach datblygiadau cwricwlwm 14-19 yng Nghymru, y DU ac Ewrop gan gynnwys gwaith ar y Cymhwyster Bagloriaeth Cymreig ôl-16 arfaethedig a chanlyniad Adolygiad Polisi'r Iaith Gymraeg. Bydd yr Awdurdod yn parhau i gydweithio â'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ar weithredu Strategaeth Sgiliau Sylfaenol i Gymru.

Er mwyn sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru yn datblygu sgiliau priodol yn unol â'r economi newidiol, bydd ACCAC yn parhau i weithio gydag ELWa, a phartneriaid eraill, i nodi'r meysydd hynny lle mae angen cymwysterau newydd. Byddwn yn hybu eu datblygiad a sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn y Fframweithiau. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r awdurdodau rheoleiddio eraill i sicrhau fframwaith cadarn o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ac i sicrhau bod datblygiadau newydd yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r ddarpariaeth bresennol. Mae'r rhaglen ddatblygu gyfan ar gyfer Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn cael ei hadolygu yn dilyn adroddiad Hillier, yn yr un modd ag y mae'r rhaglen brentisiaeth fodern yn dilyn adroddiad Cassels. Mae ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r ddau adroddiad hwn yn ogystal â datblygu'r Asiantaeth Ddatblygu Sgiliau Sector a'r Cynghorau Sgiliau Sector newydd yn golygu y gellir gweld newidiadau sylweddol yn y maes hwn yn ystod oes y cynllun.

Hydref 2002 oedd pumed pen-blwydd gweithredu Deddf Addysg 1997 sy'n darparu'r sail statudol ar gyfer swyddogaethau cymwysterau yr Awdurdod. Mewn cydweithrediad â'n cydweithwyr rheoleiddio yn Lloegr a Gogledd Iwerddon byddwn yn cynnal arolwg o'r trefniadau presennol i weld i ba raddau y maent yn dal yn briodol o ran cyflawni amcanion yr Awdurdod a'r Cynulliad

## Cynnal safonau a hawlio hyder y cyhoedd

Yn sail i'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, y mae Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn rhan ohono, ceir system reoleiddio gadarn a chost-effeithiol. Mae'r tri awdurdod rheoleiddio yn cydweithio yn y gwaith o sicrhau safonau trwy:

- ddatblygu a chyhoeddi meini prawf ar gyfer achredu cymwysterau
- achredu cymwysterau yn erbyn y meini prawf hynny a, lle bo angen, gweithio gyda chyrff dyfarnu i ddatblygu cymwysterau newydd
- adolygu prosesau a gweithdrefnau dyfarnu drwy drefniadau monitro ôl-achredu manwl
- gwella tryloywder y system i ddefnyddwyr.

*Meini prawf ac achredu*

Defnyddir dau gategori o feini prawf ar gyfer achredu cymwysterau: y rhai sy'n rheoli cynllun cymwysterau, y cyfeirir atynt fel 'meini prawf cymwysterau', a'r rhai sy'n rheoli'r prosesau a'r gweithdrefnau yn arwain at ddyfarnu cymwysterau, y cyfeirir atynt fel 'codau ymarfer'. Bu'r awdurdodau rheoleiddio yn cydweithio i ddatblygu'r meini prawf presennol ac maent yn cynllunio rhaglen adolygu bwysig ar y cyd. Fel rhan annatod o adolygu'r trefniadau rheoleiddio bydd ACCAC, QCA ac CCEA yn adolygu'r holl godau a meini prawf presennol, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas, yn glir ac wedi'u cydlynu.

Bydd adolygiad y system reoleiddio yn cynnwys adolygiad o'r trefniadau achredu ar y cyd. Y nod yw symleiddio'r broses achredu, gan ei gwneud yn fwy ymatebol i arloesedd tra'n sicrhau ei bod yn parhau'n ddull effeithiol o sicrhau ansawdd wrth ddarparu cymwysterau.

Ar yr un pryd, bydd y rhaglen ar gyfer achredu'r holl gymwysterau presennol yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd (e.e. pynciau galwedigaethol TGAU a safon Uwch ac UG galwedigaethol diwygiedig) wedi'u cwblhau. Fel mewn agweddau eraill ar y rheoliadau, lle bo'n briodol, cytunir ymlaen llaw ynglŷn â dyrannu cyfrifoldebau manwl o fewn a rhwng y tri awdurdod a chaiff cynnydd ei fonitro dan reolaeth gyffredinol y tri awdurdod.

Bydd ACCAC yn parhau i weithio gyda QCA i achredu'r cymwysterau lefel uwch sy'n dod o fewn cylchoedd gwaith yr awdurdodau rheoleiddio.

*Monitro ôl-achredu*

Bydd y tri awdurdod rheoleiddio hefyd yn gweithio ar y cyd i wella trefniadau monitro ôl-achredu presennol. Cytunwyd ar ddull o reoli gwaith ar y cyd ar draws y tair gwlad gyda'r nod o resymoli a chydlynu ymdrechion. Bydd y tri awdurdod yn cyhoeddi a dosbarthu canlyniadau eu gweithgareddau monitro ôl-achredu.

Mae'r tri awdurdod yn ymgymryd ag ymchwil a datblygu i fynd i'r afael ag anawsterau hysbys ac i wella ansawdd llunio a gweithredu cymwysterau. Nodir canolbwyntiau penodol yng ngoleuni canfyddiadau'r monitro ôl-achredu, a rhoddir ystyriaeth ddyledus i bryderon a godir gan eraill sydd â diddordeb dilys yn y system gymwysterau. Rhoddir sylw penodol ar hyn o bryd i adolygu'r cymhwyster Sgiliau Allweddol ac i'r trefniadau arbennig sy'n sicrhau mynediad i gymwysterau allanol i ddysgwyr ag anghenion penodol. Bydd gwaith yn ymwneud ag adolygu cymwysterau, yng ngoleuni mentrau polisi yn y cam 14-19 ac mewn perthynas â'r Gymraeg, hefyd yn amlwg yn ystod y cyfnod hwn.

*Gwella tryloywder*

Bydd yr awdurdodau rheoleiddio yn parhau i weithio gydag ystod o brosiectau sydd â'r nod o wneud y system ddyfarnu yn fwy tryloyw.

Ar gyfer cymwysterau cyffredinol, gall canolfannau arholi gyfeirio eu hapeliadau yn erbyn gradd cymhwyster yn y lle cyntaf, i'r corff dyfarnu perthnasol. Lle nad yw'r apelwyr yn fodlon, yn achos safon Uwch a TGAU/GNVQ, gallant gyflwyno apêl ffurfiol i'r Bwrdd Apelio Arholiadau. Bydd yr Awdurdod yn parhau i nodi pob apêl ffurfiol a monitro camau gweithredu'r corff dyfarnu pan fo'r apêl yn llwyddiannus. Bydd ACCAC hefyd yn gweithio gyda QCA ar wella mynediad rhieni ac ymgeiswyr i'r system apelio.

O ran cymwysterau galwedigaethol, gall ymgeisydd neu ganolfan gysylltu â'r corff dyfarnu'n uniongyrchol. Os na fydd y canlyniad yn bodloni, gall ymgeiswyr apelio'n uniongyrchol i ACCAC.

Gall unigolion a sefydliadau hefyd apelio'n uniongyrchol i ACCAC pa fyddant yn ystyried bod penderfyniad asesiad yn annheg. Bydd ACCAC yn parhau i archwilio a chyflwyno adroddiad ar yr achosion hyn.

**Cefnogi cymwysterau cyfrwng Cymraeg**

Mae'r Awdurdod yn darparu cefnogaeth ariannol i gynhyrchu arholiadau safon Uwch, (TAG a Thystysgrif Addysg Alwedigaethol), Dyfarniadau Uwch Estynedig, TGAU (gan gynnwys TGAU mewn pynciau galwedigaethol) a thystysgrifau lefel Mynediad ac asesiadau GNVQ cyfrwng Cymraeg. Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro'r ganran o ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Awdurdod hefyd yn uniongyrchol gyfrifol am ddatblygu a pharatoi profion Sgiliau Allweddol Cymraeg a Chyfrwng Cymraeg, sy'n cael eu gweinyddu wedyn gan y cyrff dyfarnu hynny sy'n dymuno darparu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg i'w canolfannau.

Mae cyngor ar ddarparu NVQ trwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i ddosbarthu i'r Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol (NTO), Cyrff Gosod Safonau (SSB) a chyrff dyfarnu, ac mae cyngor ar ddarparu ac asesu VRQ trwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i gyhoeddi ar safwe ACCAC. Hefyd, ym mis Awst 1999, cytunodd y Project and Standards Approval Group (PSAG), y pwyllgor sy'n gyfrifol am gymeradwyo Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ledled y Deyrnas Unedig, i dderbyn cynigion gan NTO ac SSB i dalu am gostau uniongyrchol cyfieithu NOS i'r Gymraeg.

Mae'n debygol y bydd y gofyn am gymwysterau o'r fath yn cynyddu. Mae angen dull strategol o ariannu. Mae'r Awdurdod yn rhoi cyngor i'r Cynulliad yn 2002/03 ar bolisi ar gyfer cefnogaeth ariannol i gymwysterau cyfrwng Cymraeg. Bydd yr Awdurdod yn ymateb fel bo'n briodol i ymateb y Gweinidog.

**Cynghori ar gymeradwyo cymwysterau'n statudol**

Bydd yr Awdurdod yn darparu cyngor i'r Cynulliad bob blwyddyn ar gymeradwyo cymwysterau'n statudol i ddysgwyr dan-16, 16-18 ac ôl-19.

**Gweithio gyda QCA**

Telir ffi i QCA am waith a wneir ar ran yr Awdurdod mewn perthynas â chymwysterau. Bydd yr Awdurdod yn parhau i gynnal trefniadau rhannu cost gyda'r QCA, sy'n glir, sefydlog ac yn gadarn.

**Adnoddau**

Ceir crynodeb o'r gwariant a gynllunnir yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1**

| | Gweithgaredd | Cywir 2001/ 2002 £'000 | Cyllideb 2002/ 2003 £'000 | Cynllun 2003/ 2004 £'000 | Cynllun 2004/ 2005 £'000 | Cynllun 2005/ 2006 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Datblygu fframwaith cydlynol ac integredig a datblygiadau polisi eraill | 15 | 57 | 75 | 60 | 60 |
| 2 | Cynnal safonau a hawlio hyder y cyhoedd | 283 | 268 | 500 | 515 | 530 |
| 3 | Cefnogi cymwysterau cyfrwng Cymraeg | 608 | 1,159 | 1,230 | 705 | 510 |
| 4 | Cynghori ar gymeradwyo cymwysterau'n statudol | - | - | 5 | 5 | 5 |
| 5 | Costau asiantaeth QCA | 200 | 200 | 210 | 220 | 230 |
| **CYFANSWM GWARIANT Y RHAGLEN** | | **1,106** | **1,684** | **2,020** | **1,505** | **1,335** |

Bydd y dyraniad ariannol hwn yn caniatáu i'r Awdurdod gynnal y lefelau presennol o weithgarwch drwy gydol cyfnod y Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, ni fydd y gwaith o weithredu cynlluniau'r Awdurdod ynghyd â'r awdurdodau rheoleiddio yn Lloegr (QCA) a Gogledd Iwerddon (CCEA), i wella'r gwaith o fonitro safonau a chysondeb wrth asesu cymwysterau galwedigaethol yn cael ei wneud tan fis Ebrill 2004 ar y cynharaf.

Yn ogystal, bwriedir i'r trefniadau presennol i ddatblygu profion Sgiliau Allweddol ddod i ben ddiwedd mis Gorffennaf 2004. Efallai y bydd angen gwneud ceisiadau pellach am gyllid os bydd y rhaglen yn parhau ar ôl y dyddiad hwnnw.

**Amcan 2**
**Datblygu fframwaith cwricwlwm ac asesu cydlynol ac integredig sy'n codi safonau cyrhaeddiad ac sy'n ehangu cyfleoedd addysgol**

## Gorolwg

Mae'r Amcan hwn yn canolbwyntio ar:

- ddarpariaeth blynyddoedd cynnar
- y cwricwlwm 5–19
- darpariaeth addysg grefyddol
- trefniadau asesu i ddisgyblion 5–14 oed.

Mae llawer o'r gwaith hwn yn deillio o'r Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig, a weithredwyd ym mis Medi 2000. Y cyd-destun ar gyfer y gwaith hwn yw www.gwellcymru.com , *Y Wlad Sy'n Dysgu* a chanlyniadau'r Cyfnod Sylfaen; y Cam 14-19 ac adolygiadau'r Iaith Gymraeg.

Ein gweledigaeth barhaus yw datblygu cwricwlwm cydlynol ac integredig a fframwaith asesu sydd:

- yn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion
- yn ehangu cyfleoedd addysgol ac yn codi safonau cyrhaeddiad
- yn derbyn ymddiriedaeth y proffesiwn addysgu, rhieni, llywodraethwyr a'r cyhoedd ehangach
- yn datblygu darpariaeth ar gyfer y rhai sy'n ymuno ac yn ymadael â'r amgylchedd ysgol.

Dylai'r gweithgarwch a gynllunnir dan yr Amcan hwn sicrhau'r **canlyniadau cyffredinol** canlynol:

- codi safonau cyrhaeddiad yn y pynciau craidd sef Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, darpariaeth ysgol yn gyffredinol ac addysg grefyddol (AGr)
- cynigion, fel y bo angen, ar gyfer cwricwlwm a threfniadau asesu diwygiedig sy'n well o ran bodloni anghenion dysgwyr unigol, eu cymunedau lleol a Chymru, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y cyfnod sylfaen, adolygiad 14-19 ac adolygu polisi'r Gymraeg
- gwell asesiad athrawon ym mhynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol
- gwell dealltwriaeth a defnydd o'r wybodaeth a geir o'r broses asesu statudol
- system asesu statudol sy'n fwy cost-effeithiol ac sydd â gwell ffocws
- ei bod yn ofynnol nad yw mentrau yn ychwanegu at lwythi gwaith athrawon, ond yn hytrach yn gostwng beichiau biwrocratig.

## Y Blynyddoedd Cynnar a'r Cwricwlwm

### Y cwricwlwm ysgol

### Y cwricwlwm ysgol diwygiedig a threfniadau asesu yng Nghymru

Yn dilyn ymarfer monitro yn yr hydref 2001/y gwanwyn 2002, rhoddodd yr Awdurdod gyngor, ym mis Mai 2002, i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwneud â statws fframweithiau Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) ac Addysg Gysylltiedig â Gwaith (AGG) y tu hwnt i 2002 a'r gwaith pellach sydd ei angen i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu. Bydd gwaith pellach yn y maes hwn yn ystyried ymateb y Gweinidog. Mewn partneriaeth â Gyrfaoedd Cymru, bydd ACCAC hefyd yn monitro effeithiolrwydd y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd.

Cefnogwyd gweithredu'r cwricwlwm ysgol diwygiedig ym mis Medi 200 gyda chanllaw wedi'i dargedu i athrawon fesul cam. Yn ystod cyfnod y Cynllun, parheir i ddatblygu a chyhoeddi deunydd cefnogaeth i athrawon. Ymhlith y meysydd y mae'n debygol y rhoddir cefnogaeth iddynt, y mae deunydd sy'n gysylltiedig â thair thema bwysig y Cynulliad, sef datblygiad cynaliadwy, cynhwysiad cymdeithasol a chydraddoldeb cyfle; darpariaeth i rai dan bump a chodi safonau yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae'r Awdurdod yn cael ei gynrychioli ar Banel Addysg dros Ddatblygiad Cynaliadwy ac ar Weithgor ar Ddinasyddiaeth Fyd-eang y Cynulliad. Meysydd eraill a dargedir mae'n debyg fydd canllaw i gefnogi'r Cwricwlwm Cymreig; canllaw i athrawon disgyblion dawnus a thalentog; a deunyddiau cefnogi i weithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd. Bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau bod cysylltiadau agos rhwng deunydd canllaw, hyfforddiant mewn swydd a chymwysterau i athrawon newydd ac athrawon mewn gwasanaeth. Bydd yr Awdurdod yn trafod ac ystyried y rhyngwyneb rhwng ei waith a Chynlluniau Llythrennedd Teulu yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Bydd yr awdurdod hefyd yn ystyried canlyniadau Adolygiad Polisi Iaith Gymraeg y Cynulliad ac yn gweithredu newidiadau os bydd angen.

Yn ystod 2002/03, bydd ACCAC yn ymgymryd â rhaglen waith i fonitro cwricwlwm ysgol diwygiedig a phwrpas ac effeithiolrwydd system asesu statudol. Bydd y gwaith hwn yn ystyried cynigion ymgynghori'r Cynulliad ar gwricwlwm cydlynol ar gyfer y rhai 14–19 oed. Bydd swyddogion ACCAC yn casglu gwybodaeth am weithredu Gorchmynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol, trefniadau a chanllawiau asesu a hyblygrwydd defnyddio cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yn ystod Cyfnod Allweddol 4. Bydd asiantaeth yn cael ei phenodi i fonitro'r cwricwlwm ysgol a threfniadau asesu yn ystod pob cyfnod allweddol a gofynnir am farn pobl ifanc hefyd. Yn ystod 2003, bydd yr Awdurdod yn darparu adroddiad monitro i'r Gweinidog, yn ogystal â chyngor pellach ar y camau a argymhellir ac amserlen i weithredu. Ystyrir yr angen i gynnal fframwaith cwricwlwm ac asesu cydlynol, datblygiadau mewn polisi ar gyfer rhai 14-19 oed a'r Cyfnod Sylfaen arfaethedig. Bydd y cyngor yn cynnwys y dull o hyrwyddo'r drafodaeth ar ddyfodol cwricwlwm ysgol a threfniadau asesu yng Nghymru, ynghyd ag unrhyw gefnogaeth a nodwyd sydd ei hangen i hyrwyddo dysgu a chodi safon cyrhaeddiad. Yn ystod cyfnod y cynllun, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Gweinidogol, bydd ACCAC yn ymgymryd ag unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'r Gorchmynion Pwnc a threfniadau asesu ac yn datblygu cynigion ar gyfer ymgynghori eang ar unrhyw newidiadau.

Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda chyrff eraill i archwilio a datblygu potensial safweoedd rhyngweithiol i gefnogi addysgu a dysgu ac i fonitro ac ymgynghori ar y cwricwlwm a'r trefniadau asesu.

## Darpariaeth addysg grefyddol 5–19

Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAGau) ac AALl i hyrwyddo gwell safonau mewn Addysg Grefyddol (AGr) yng Nghymru. Bydd ACCAC yn parhau i gyhoeddi adolygiadau o adroddiadau CYSAG bob yn ail flwyddyn. Amserlennir yr adroddiadau nesaf ar gyfer 2003 a 2005.

Bydd ACCAC hefyd yn gweithio gydag AALl a CYSAGau ar brosiectau ffocws sydd â'r nod o godi safonau mewn AGr. Mae'r Awdurdod wedi diweddaru'r *Arweiniad ar Adolygu Meysydd Llafur Cytûn Lleol,* gan gynnwys disgrifiadau lefel enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer AGr yng Nghymru, ac wedi cyhoeddi canllaw i athrawon yn 2002 i roi enghraifft o'r disgrifiadau lefel enghreifftiol cenedlaethol. Gan weithio gydag AALl a CYSAGau, yng Nghymru, bydd ACCAC yn monitro effeithiolrwydd y disgrifiadau lefel enghreifftiol ac yn nodi prosiectau ffocws eraill i hyrwyddo gwell safonau mewn AGr yng Nghymru.

## Darpariaeth y blynyddoedd cynnar

Nod yr Awdurdod yw darparu mwy o ganllawiau i ategu'r ddogfen *Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol* o ran datblygu cynnydd plant tair a phedair blwydd oed, ynghyd â deunydd enghreifftiol i gynorthwyo'r gwaith o gynllunio cwricwlwm ymhob amgylchedd.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i gyfrannu i'r Panel Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar a sefydlwyd gan y Cynulliad. Yn enwedig bydd yn cefnogi datblygiad y Cyfnod Sylfaen.

## Trefniadau asesu statudol

### Asesiad sylfaen

Nod yr Awdurdod yw sicrhau trefniadau asesiad sylfaen da, sy'n cefnogi'r disgyblion lleiaf galluog a'r rhai sydd dan fygythiad o gael eu heithrio'n gymdeithasol. Estynnwyd y defnydd o gynlluniau achrededig i gynnwys y flwyddyn ysgol 2003/04. Yn amodol ar ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Cyfnod Sylfaen, bydd yr Awdurdod yn ystyried pa ddeunyddiau enghreifftiol sydd eu hangen i gynorthwyo'r gwaith o egluro a sicrhau cysondeb wrth ddehongli'r graddfeydd asesu ledled Cymru.

### Asesu statudol ar gyfer rhai 7, 11 a 14 oed

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod yr egwyddorion sydd wrth wraidd strwythur asesu statudol yng Nghymru (a amlinellir yn *Cael y Gorau o'r Trefniadau Asesu Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru*, 1997) yn dal i gael eu gweithredu, sef:

- Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3:
    - y dylai asesiad statudol athrawon a'r tasgau a'r profion statudol gael yr un statws
    - bydd y tasgau a'r profion statudol yn targedu'r ystod ddisgwyliedig o lefelau
    - mai asesiad athrawon yn unig a ddefnyddir i adnabod cyrhaeddiad y disgyblion uwchben ac o dan yr ystod ddisgwyliedig.
- Yng Nghyfnod Allweddol 1, asesiad athrawon a ddefnyddir i fesur ac adrodd ar gyrhaeddiad disgyblion.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i gynnull y Fforwm Asesu Statudol, sy'n darparu cyfleoedd i gynrychiolwyr yr AALl gael gwybodaeth uniongyrchol am y trefniadau asesu gan swyddogion yr Awdurdod ac i'r swyddogion dderbyn adborth gan gynrychiolwyr yr AALl.

Parheir i ystyried anghenion disgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

### Gwella asesiad athrawon a defnyddio gwybodaeth asesu

Bydd yr Awdurdod yn parhau i weithredu ei amcan tymor hir i wella ansawdd asesiad athrawon.

Yn dilyn gwerthuso Deunyddiau Asesu Dewisol a'r gyfres Gwneud Defnydd Effeithiol o Wybodaeth Asesu 2002/03, bydd yr Awdurdod yn ystyried sut i adeiladu ar y deunyddiau hyn wrth hyrwyddo a chefnogi ar gyfer dysgu yn ystod cyfnod y Cynllun Corfforaethol.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i hybu gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd asesu statudol ac asesu ar gyfer dysgu o ran helpu i godi safonau, trwy bwysleisio sut y gall disgyblion, athrawon ac ysgolion ddefnyddio canlyniadau asesu i wella addysgu a dysgu.

Gan adeiladu ar ganllawiau ac arfer dda y gorffennol, bydd yr Awdurdod hefyd yn cadw i fyny â datblygiadau lleol a chenedlaethol trwy fonitro mentrau'r AALl ar ddefnyddio gwybodaeth ar gyfer pwrpasau ffurfiannol a diagnostig a gosod targedau er mwyn rhannu arferion da yn fwy eang.

### Tasgau a phrofion statudol

Yn ystod cyfnod y Cynllun Corfforaethol, bydd yr Awdurdod yn parhau i ddatblygu fframwaith asesu cydlynol ac integredig i Gymru lle mae asesu wrth wraidd cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn cynnig data dibynadwy ar gyrhaeddiad y disgyblion.

Ar hyn o bryd, datblygir tasgau a phrofion diwedd Cyfnod Allweddol 2 a 3 gan asiantaethau datblygu profion dan gontract i'r Awdurdod. Maent yn cynnwys y blynyddoedd asesu hyd at 2004/05. Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r trefniadau'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gynnig gwerth am arian a'u bod yn cynilo'n effeithlon.

Mae angen i'r profion hyn ddarparu dilyniant gyda blynyddoedd blaenorol er mwyn gallu mesur cynnydd tuag at y targedau BEST. Yr amser mwyaf priodol, felly, i weithredu newidiadau arwyddocaol (os bydd rhai) i'r fframwaith asesu fyddai yn ystod 2006. Bydd yr Awdurdod yn gweithredu proses dendro ar gontractau datblygu profion ar gyfer 2006 a thu hwnt erbyn diwedd 2003, er mwyn ei gwneud yn bosib gweithredu unrhyw newidiadau i'r fframwaith asesu.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i sicrhau cymharedd mewn tasgau a phrofion statudol ar draws pynciau, ac ar draws cyfnodau allweddol. Hefyd, bydd yr Awdurdod yn cadw mewn cysylltiad agos a rheolaidd â'r QCA, CCEA a'r asiantaethau priodol yn Yr Alban er mwyn sicrhau bod safonau a chanlyniadau profion ar draws gwledydd y DU yn cael eu cymharu mewn ffordd systematig.

Rhoddir ystyriaeth i drefnu bod hen bapurau prawf ar gael i rieni. Byddai hyn yn cynnwys papurau o'r flwyddyn 2000 ymlaen (y dyddiad y daeth ACCAC yn uniongyrchol gyfrifol am y swyddogaethau hyn). Y bwriad fyddai cynhyrchu CD-ROM yn cynnwys profion a chynlluniau marcio'r blynyddoedd perthnasol, y gellid ei ddosbarthu i'r ysgolion gyda'r adroddiad blynyddol *Goblygiadau i Addysgu a Dysgu*.

## Marcio Allanol

Dan y contract marcio allanol a chasglu data cenedlaethol presennol, mae CBAC yn rheoli trefniadau ar gyfer profion statudol 2002 i rai 11 a 14 oed. Bydd ACCAC yn cwblhau ymarfer gwahoddiad i dendro ar gyfer y contract hwn yn ystod haf 2002. Wedi hynny bydd yr Awdurdod yn parhau i reoli'r gwaith i sicrhau marcio o safon uchel a sicrhau bod data cenedlaethol yn cael ei gasglu a'i ddilysu yn brydlon. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a threialu dulliau o gynyddu trosglwyddo data yn electronig.

Gan ddechrau gyda chylch profi/datblygu 2003, ceir gwasanaeth canolog ar gyfer trefnu cyfraniad ysgolion yn y cyfnod cyn y profion ar waith. Mae'r model hwn yn darparu system syml ac effeithiol gyda ffocws cyfatebol ar sicrhau cyn lleied o lwyth gwaith â phosib i ysgolion sy'n cymryd rhan. O 2002/03, y bwriad yw ymgymryd â chynllun peilot ar raddfa fechan i archwilio ffyrdd o ehangu'r bartneriaeth hon gydag ysgolion, gan gynnwys darparu crynodeb o ddata i ysgolion i gefnogi asesu diagnostig.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio mewn cysylltiad agos â Grŵp Ymgynghori Cenedlaethol a sefydlwyd i archwilio a goruchwylio cyflwyno system Rhifo Disgyblion Unigryw (UPN) fel rhan o gynllunio strategol ehangach ar ddatblygu systemau lefel disgyblion yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno Cronfa Ddata Sylfaenol Gyffredin i Gymru, creu cronfa ddata ar lefel disgyblion i Gymru, sefydlu cynlluniau peilot mewn AALl a'u gweithredu wedi hynny. Ar y cyd â hyn, bydd yr Awdurdod hefyd yn gweithio gydag ELWa i ddatblygu casglu data ôl-16 i gadw golwg ar gynnydd dysgwr ar ôl oedran addysg orfodol.

## Buddsoddi i Gynilo (ISB)

Mae ACCAC yn gweithio gyda QCA, CCEA ac SQA i nodi a threialu ffyrdd o ail-gynllunio'r broses farcio allanol a chasglu data. Cynllun treigl tair blynedd yw'r Gyllideb Buddsoddi i Gynilo a ariennir gan Drysorlys EM. Mae'r rhaglen yn ceisio manteisio ar dechnoleg a systemau rheoli newydd i gefnogi marcio allanol a chasglu data cenedlaethol a lleihau beichiau gweinyddol ar AALl ac ysgolion. Mae'r rhaglen Buddsoddi i Gynilo (ISB) yn ei hail flwyddyn (Ebrill 2002) ac yn symud ymlaen o'r cyfnodau o 'brofi'r cysyniad' i dreialu a gweithredu cynllun peilot.

## Cynhwysiad a sicrhau mynediad i'r holl ddisgyblion

Wrth ddatblygu'r fframwaith cwricwlwm ac asesu, mae'r Awdurdod yn cefnogi cynnwys yr holl ddisgyblion trwy gyfrwng datganiadau 'Mynediad i bob disgybl' diwygiedig yng Ngorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd yr Awdurdod yn monitro gweithredu gorchmynion diwygiedig i sicrhau eu bod yn darparu fframwaith priodol ar gyfer bodloni anghenion yr holl ddisgyblion o'r blynyddoedd cynnar i 16 oed. Bydd Fframwaith ABCh, sy'n cyfeirio at gyfrifoldeb cymdeithasol, ymwybyddiaeth gymunedol a derbyn amrywiaeth yn ogystal â chanllawiau ar Gyfle Cyfartal, yn cefnogi ysgolion i ddatblygu naws gynhwysol. Mae trefniadau arbennig yn galluogi cymaint o ddisgyblion â phosibl i gael mynediad i'r tasgau statudol ac mae'n cynnwys disgyblion sy'n dysgu Cymraeg /Saesneg fel iaith ychwanegol. Er mwyn cefnogi athrawon disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig a disgyblion dawnus/talentog, mae'r Awdurdod yn cynllunio amrywiaeth o fentrau sy'n cynnwys:

- trefnu cynhadledd flynyddol mewn cydweithrediad ag Estyn ac Adran Hyfforddiant ac Addysg ar gyfer darparu diweddariad ar bolisi ac arferion;

- ymgymryd â gwaith pellach ar asesiad athro o ddisgyblion sy'n gweithio islaw'r ystod a ddisgwylir ymhob Cyfnod Allweddol, yn enwedig os ydynt yn gweithio islaw Lefel 1;
- dosbarthu canllawiau ar ddisgyblion dawnus a thalentog; a
- pharhau i weithio gyda QCA, CCEA a chyrff dyfarnu i resymoli'r trefniadau arbennig ar draws TAG Safon Uwch ac UG, TGAU, TAAU, GNVQ, Sgiliau Allweddol, cymwysterau Lefel Mynediad a'r profion yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3.

Ceir crynodeb o'r gwariant a gynllunnir yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2**

| | **Gweithgaredd** | **Cyllideb 2001/ 2002 £'000** | **Cynllun 2002/ 2003 £'000** | **Cynllun 2003/ 2004 £'000** | **Cynllun 2004/ 2005 £'000** | **Cynllun 2005/ 2006 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Y blynyddoedd cynnar a'r cwricwlwm ysgol | 257 | 299 | 340 | 640 | 640 |
| 2 | Trefniadau asesu statudol: | | | | | |
| | • asesiad sylfaen | - | 2 | 10 | 5 | - |
| | • gwella asesiad athrawon (DADau a MEUOAI) | 401 | 424 | 120 | 120 | 120 |
| | • tasgau a phrofion statudol | 2,641 | 2,425 | 2,514 | 2,635 | 2,753 |
| | • marcio allanol | 1,508 | 1,741 | 1,750 | 1,800 | 1,850 |
| | • Buddsoddi i Gynilo | 18 | 26 | 50 | - | - |
| **CYFANSWM GWARIANT Y RHAGLEN** | | **4,825** | **4,917** | **4,784** | **5,200** | **5,363** |

Wrth ailamlinellu'r gwariant mae'r Awdurdod yn gallu cynnal y lefelau presennol o weithgarwch.

Fodd bynnag, ni fydd yr Awdurdod yn gallu cynnal gweithgarwch ychwanegol tan 1 Ebrill 2004 ar y cynharaf. Mae hyn yn cynnwys datblygu darpariaeth o ddeunyddiau asesu, y gellir eu defnyddio ar sail ddewisol gyda phlant 7 oed yn dilyn dileu Profion Asesu Statudol Cyfnod Allweddol 1.

**Amcan 3**

**Comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth Cymraeg a dwyieithog o ansawdd uchel i gefnogi addysgu'r Gymraeg a phynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg ac agweddau ar y cwricwlwm ysgol sy'n benodol i Gymru**

### Gorolwg

Bydd yr Awdurdod yn parhau i gomisiynu cyhoeddi deunyddiau ystafell ddosbarth o ansawdd uchel ar draws y cwricwlwm ysgol cyfan a lle mae'r farchnad fasnachol yn methu darparu deunyddiau o'r fath. Nod y deunyddiau fydd:

- cefnogi gwelliant mewn safonau cyrhaeddiad mewn Cymraeg, fel iaith gyntaf ac ail iaith
- gwella ac ymestyn yr ystod o gyfleoedd addysgol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg
- cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion yng Nghymru o wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o elfennau'r cwricwlwm sy'n benodol i Gymru.

Dylai'r gweithgarwch a gynllunnir dan yr Amcan hwn sicrhau'r **canlyniadau cyffredinol** canlynol:

- sicrhau bod ystod addas o ddeunyddiau ystafell ddosbarth Cymraeg a dwyieithog o safon uchel ar draws pob pwnc ar gael, a fydd yn cyfrannu at godi safonau cyrhaeddiad
- gwell ymwybyddiaeth mewn ysgolion fod y deunyddiau hyn ar gael
- cynnydd yn y defnydd o TGCh o fewn y strategaeth gomisiynu.

### Strategaeth gomisiynu

Gosodir y gwaith dan yr Amcan hwn yng nghyd-destun y blaenoriaethau a grybwyllwyd yn y ddogfen strategaeth *Comisiynu Deunyddiau Ystafell Ddosbarth: Strategaeth a Gweithredu 2000/01 – 2002/03*. Mae'r strategaeth yn cael ei diwygio a'i diweddaru ar gyfer ei chyhoeddi yn 2003.

### Blaenoriaethau comisiynu

Yn ystod cyfnod y Cynllun, bydd yr Awdurdod yn:

- parhau i gynnal proses effeithiol ar gyfer nodi a blaenoriaethu anghenion addysgol y gellir eu bodloni drwy ddeunyddiau wedi'u hargraffu a deunyddiau eraill, gan gynnwys meddalwedd ac adnoddau clyweledol
- cynnal a gwella lefel gyffredinol darpariaeth deunyddiau ystafell ddosbarth Cymraeg a dwyieithog, gan fynd i'r afael â meysydd lle nodwyd tan-ddarpariaeth arwyddocaol
- mynd i'r afael â materion adnoddau sy'n deillio o amcanion eraill yng Nghynllun Corfforaethol yr Awdurdod e.e. datblygiadau cwricwlwm, asesu a chymwysterau
- sicrhau cydbwysedd priodol rhwng deunyddiau wedi'u hargraffu â'r rhai heb eu hargraffu a chwilio am gyfleoedd eraill trwy ddefnyddio technoleg sy'n datblygu

- cydweithio â chomisiynwyr eraill lle mae cyfleoedd yn codi (e.e. Cyngor Llyfrau Cymru, CBAC, y BBC, ELWa) i sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o arian cyhoeddus
- sicrhau bod y deunyddiau sy'n cael eu cynhyrchu o'r safon angenrheidiol ac yn bodloni anghenion a nodwyd
- ceisio gwelliant blynyddol i gwrdd â thargedau dyddiadau cyhoeddi
- cydweithio â Chyngor Llyfrau Cymru i weithredu amrywiaeth o fentrau marchnata i sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o'r deunyddiau sydd ar gael gyda'r nod o gynyddu gwerthiant
- monitro ffigyrau gwerthiant ar gyfer yr holl ddeunydd comisiwn, i nodi i ba raddau y mae'r deunyddiau'n cael eu defnyddio
- adeiladu ar brofiad a gafwyd o'r ymarferiadau gwerthuso a wnaed eisoes i gynnal rhaglen dreigl o werthuso annibynnol, gan edrych ar wahanol feysydd o'r cwricwlwm yn eu tro. Mae prosiectau blaenorol yn cynnwys gwerthuso deunyddiau pynciau craidd Cyfnod Allweddol 1 a deunyddiau Cwricwlwm Cymreig dwyieithog yng Nghyfnod Allweddol 2
- ceisio gwella gwerth am arian mewn prosiectau wedi'u comisiynu. Gwneir ymdrech i sicrhau mwy o gystadlu am gontract a bydd buddsoddiad yr Awdurdod yn cael ei adolygu'n feirniadol, yn enwedig mewn perthynas â'r nifer o'r deunyddiau a gyhoeddwyd a brynir gan ysgolion ac eraill
- parhau i adolygu ei weithdrefnau tendro. Bu nifer o ddatblygiadau technolegol mewn argraffu sydd â'r potensial i wella gwerth am arian. Hefyd, mae'n bosibl bod tuedd at gynhyrchu mwy o ddeunyddiau a seiliwyd ar TG, lle mae'r farchnad yn fwy cystadleuol ac a all fod yn ddull mwy cost-effeithiol o gomisiynu. Serch hynny, gan mai ymateb i anghenion athrawon yw'r flaenoriaeth, bydd deunyddiau wedi'u hargraffu yn dal i fod yn bwysig.

Ceir crynodeb o wariant a gynllunnir yn Nhabl 3 isod .

**Tabl 3**

| | Gweithgaredd | Cywir 2001/ 2002 £'000 | Cyllideb 2002/ 2003 £'000 | Cynllun 2003/ 2004 £'000 | Cynllun 2004/ 2005 £'000 | Cynllun 2005/ 2006 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Comisiynu deunyddiau i fodloni anghenion | 1,101 | 1,316 | 1,357 | 1,411 | 1,453 |
| 2 | Dulliau rheoli ansawdd | 77 | 72 | 80 | 75 | 82 |
| 3 | Marchnata deunyddiau | 14 | 12 | 13 | 14 | 15 |
| **CYFANSWM GWARIANT Y RHAGLEN** | | **1,192** | **1,400** | **1,450** | **1,500** | **1,550** |

Bydd y dyraniad ariannol hwn yn caniatáu i'r Awdurdod gynnal y lefelau presennol o weithgarwch drwy gydol cyfnod y Cynllun Corfforaethol. Nod ACCAC yw comisiynu, ar gyfartaledd, 200 o deitlau Cymraeg a dwyieithog bob blwyddyn. Heb ymyriad gan yr Awdurdod, ni fyddai'r farchnad fasnachol ar gyfer deunyddiau ystafell ddosbarth yn cynhyrchu amrywiaeth addas o ddeunyddiau Cymraeg a dwyieithog i'w prynu gan ysgolion.

**Amcan 4**
**Gwella ffynonellau gwybodaeth yr Awdurdod gydag ymchwil wedi'i thargedu a darparu gwybodaeth amserol am ddatblygiadau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru**

## Gorolwg

Y cyd-destun polisi ar gyfer yr Amcan hwn yw cyfrifoldeb yr Awdurdod i sicrhau bod cyngor ACCAC wedi ei seilio ar ymchwil dda a gwaith a wnaed mewn cydweithrediad â phob partner perthnasol, a bod yr Awdurdod mewn sefyllfa dda i ddarparu gwybodaeth gywir ac amserol i'r cyhoedd.

Am y tair blynedd nesaf nod yr Awdurdod yw:

- cynnal a, lle bo'n bosibl, ehangu'r nifer o ffynonellau gwybodaeth, ar gyfer gwybodaeth ansoddol a meintiol, er mwyn sicrhau bod sail ddeallus i benderfyniadau
- cynnal ac ymestyn y trefniadau partneriaeth sy'n hyrwyddo llif gwybodaeth a chydlynu ymdrechion
- gwella'r gwasanaeth gwybodaeth y mae'n ei ddarparu, yn enwedig drwy waith ailddatblygu pwysig ar y safwe
- datblygu proffil priodol ar gyfer gwaith yr Awdurdod, gan gynyddu cydnabyddiaeth gan gynulleidfa ehangach a chreu gwell dealltwriaeth o'n gwaith a'n nodau.

Mae ACCAC yn tynnu gwybodaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau gan gynnwys yr aelodau, staff, y proffesiwn addysgu, grwpiau diddordeb allweddol, megis undebau llafur, eglwysi a chyflogwyr yn ogystal â thrwy ymgynghori ffurfiol, ymarferion gwerthuso, nodi anghenion a dadansoddiadau ystadegol. Mae'r Awdurdod hefyd yn comisiynu gwaith ymchwil annibynnol.

Mae gan ACCAC ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth fanwl gywir am ddatblygiadau i'r sawl sydd â diddordeb mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Dylai'r gweithgarwch a gynllunnir dan yr Amcan hwn sicrhau'r canlyniadau cyffredinol canlynol:

- gwell gwybodaeth ystadegol gan gynnwys data sy'n cysylltu perfformiad yn 11, 14, 16 a 18 oed ac sy'n cynnwys ystod ehangach o gymwysterau galwedigaethol nag ar hyn o bryd
- cynnal a datblygu'r partneriaethau presennol drwy Femoranda o Ddealltwriaeth a rhaglenni gweithgarwch ar y cyd
- sefydlu gwell safwe a fydd yn darparu gwell gwybodaeth i gynulleidfa ehangach a hynny ar ffurf hawdd ei deall i bawb.

## Gwybodaeth ac ymchwil

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith casglu gwybodaeth a'r gwaith ymchwil a wneir gan ACCAC yn uniongyrchol gysylltiedig â rhaglenni gwaith penodol o fewn y tri Amcan blaenorol. Mae rhywfaint o'r ymchwil yn rhychwantu mwy nag un o brif amcanion y Cynllun Corfforaethol, er enghraifft, dadansoddi gwybodaeth ystadegol. Gwnaed llawer o gynnydd yn y maes hwn, mewn cydweithrediad â Chyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, mae gan yr Awdurdod fynediad i ddata lefel-disgyblion sy'n ymwneud â pherfformiad disgyblion 11 a 14 oed yn yr asesiadau statudol ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Mae gan yr Awdurdod fynediad hefyd i ddata lefel-disgyblion a gasglwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar berfformiad disgyblion yn asesiad statudol Cyfnod Allweddol 1. Yn ystod cyfnod y Cynllun Corfforaethol, bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r wybodaeth hon i gymharu perfformiad carfanau o ddisgyblion dros amser ac ar draws cyfnodau allweddol er mwyn olrhain cynnydd tuag at Dargedau BEST. Bydd ACCAC yn parhau i weithio'n agos gyda Chyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y peilot arfaethedig o systemau data lefel disgyblion unigol ar lefel ysgol yng Nghymru.

Mae cytundeb gyda CBAC yn golygu bod ACCAC yn cael data ar TAG a TGA U/UA, TGAU, GNVQ, NVQ a chymwysterau Lefel Mynediad. Arweiniodd hyn at gyhoeddi'r gyfres *Llwyddiant mewn Arholiadau yng Nghymru.* Yn ystod cyfnod y Cynllun Corfforaethol hwn, mae ACCAC yn bwriadu datblygu cwmpas a defnyddioldeb y cyhoeddiad hwn drwy gynnwys mesurau sy'n cysylltu perfformiad myfyrwyr yn 11, 14, 16 a 18 oed, a thrwy gynnwys ystod ehangach o gymwysterau galwedigaethol a chymwysterau cysylltiedig â galwedigaeth.

Mae gan yr Awdurdod hefyd fynediad i nifer o gronfeydd data ar gyfer GNVQ a NVQ sy'n cynnwys gwybodaeth am gymwysterau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni all yr Awdurdod gael mynediad hawdd i ddata sy'n ymwneud yn unig â chanolfannau ac ymgeiswyr yng Nghymru. Mae ACCAC yn adeiladu ei gronfa ddata ei hun ar ganolfannau wrth i'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ddatblygu ac wrth i gymwysterau gael eu hachredu. Bydd yr Awdurdod yn gweithio'n agos gyda'r Cynulliad, yr DfES, QCA ac eraill i geisio rhesymoli cymwysterau casglu a chadw data. Bydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei dosbarthu, os bydd hynny'n ddefnyddiol, i ysgolion, colegau, darparwyr addysg ac eraill.

Bydd yr Awdurdod yn gweithio gydag eraill i archwilio a datblygu potensial safweoedd rhyngweithiol i gefnogi addysgu a dysgu ac i fonitro a chysylltu ar y cwricwlwm a threfniadau asesu.

Pennir prosiectau ymchwil wedi'i thargedu ar gyfer cyfnod y Cynllun, fel yn y gorffennol, o flwyddyn i flwyddyn lle mae anghenion penodol yn cael eu nodi. Mae ACCAC yn cynyddu ei gysylltiad ymarferol gyda CIDREE (Consortiwm o Sefydliadau dros Ddatblygu ac Ymchwil yn Ewrop), a bydd yn cymryd rhan mewn prosiectau ar faterion sy'n achos pryder iddynt ill dau.

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae ACCAC yn gweithio mewn partneriaeth gyda nifer o gyrff mewn gwahanol gymwysterau, ac yn fras gellir eu rhannu'n dri.

Er mwyn i waith o fewn cylch gwaith ACCAC gael ei gyflawni'n effeithiol ac i gyfrannu'n rhagweithiol tuag at fentrau'r Cynulliad, mae'n hanfodol i'r Awdurdod weithio'n agos a chydgysylltu â sefydliadau sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag addysg yng Nghymru. Mae'r Adran Hyfforddiant ac Addysg (DfTE), Estyn ac ELWa yn allweddol yn hyn o beth.

Er mwyn cael gorolwg o ddatblygu cwricwlwm ledled Ynysoedd Prydain, mae'r Awdurdod yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdodau Cwricwlwm a Chymwysterau yn Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Mewn perthynas â materion cymwysterau, mae'r Awdurdod yn gweithio'n agos iawn gyda'r awdurdodau rheoleiddio, NTO ac SSC ledled y Deyrnas Unedig.

Wrth ddarparu cwricwlwm gorffenedig a gweithio tuag at nodau a gytunwyd yn genedlaethol, mae hefyd yn angenrheidiol rhwydweithio gydag amrywiaeth eang o gyrff eraill yng Nghymru sydd â diddordeb mewn diwallu anghenion dysgwyr. Mae hyn yn golygu bod modd cyfnewid gwybodaeth a chael gwell dealltwriaeth o anghenion unigolion ac anghenion Cymru.

**Gwybodaeth a chyhoeddusrwydd**

Bydd yr Awdurdod yn parhau i ddarparu gwybodaeth glir ac amserol am faterion cymwysterau, y cwricwlwm, asesu, comisiynu a chorfforaethol. Bwriedir hwn ar gyfer cynulleidfa eang gan gynnwys athrawon, llywodraethwyr, awdurdodau addysg lleol, cyflogwyr, hyfforddwyr athrawon, darparwyr addysg, ymgeiswyr, myfyrwyr, rhieni ac eraill sydd â diddordeb mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Cynrychiolir yr Awdurdod ar nifer o Baneli Ymgynghorol Llywodraeth Cynulliad Cymru gan gynnwys Bord Gron Sector Cyhoeddus Cymru ar Gydraddoldebau, y Panel Ymgynghorol TGCh, y Panel Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a'r Gweithgor ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang.

Bydd yr Awdurdod yn adolygu a datblygu ei strategaeth gyfathrebu a fydd yn cynnwys technoleg gwybodaeth, y rhaglen gyhoeddiadau arfaethedig a dulliau o godi proffil corfforaethol yr Awdurdod.

Mae gan yr Awdurdod ei safwe ei hun – www.accac.org.uk. Mae ehangu'r safwe hwn wedi galluogi'r Awdurdod i ddosbarthu ei wybodaeth a'i ddeunyddiau canllaw yn electronig. Mae cynlluniau ar gyfer safwe newydd a gwell yn cael eu gweithredu eleni. Rhoddir ystyriaeth lawn i sut y bydd yn effeithio ar y ffordd y mae'r Awdurdod yn ymgymryd â'i waith gan gynnwys y goblygiadau o ran staffio ac adnoddau.

Yn 2001, parhaodd y Cynllun Mynegai Gwella Ysgolion (a noddir gan Fanc HSBC) am ei seithfed flwyddyn gyda'r nifer uchaf erioed o ysgolion yn cymryd rhan. Adolygir y cynllun yn flynyddol.

Ceir crynodeb o’r gwariant arfaethedig yn Nhabl 4 isod.

**Tabl 4**

| Gweithgaredd | | Cywir 2001/ 2002 £’000 | Cyllideb 2002/ 2003 £’000 | Cynllun 2003/ 2004 £’000 | Cynllun 2004/ 2005 £’000 | Cynllun 2005/ 2006 £’000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymchwil a gwybodaeth | 45 | 34 | 75 | 75 | 75 |
| 2 | Gwybodaeth a chyhoeddusrwydd | 164 | 201 | 210 | 220 | 220 |
| **CYFANSWM GWARIANT Y RHAGLEN** | | **209** | **235** | **285** | **295** | **295** |

Bydd y dyraniad ariannol hwn yn caniatáu i‘r Awdurdod cynnal y lefelau presennol o weithgaredd drwy gydol cyfnod y Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, ni ellir cynnal gweithgarwch ychwanegol tan fis Ebrill 2004 ar y cynharaf. Mae’r rhain yn cynnwys gwelliant arwyddocaol i wefan ACCAC, gan ei wneud yn haws i ymwelwyr ddod o hyd i ddogfennau ar y safle ac i staff uwchlwytho gwybodaeth a rhaglen ymchwil lawnach i gynorthwyo amcanion gweithredol ac i hwyluso penderfyniadau sy’n seiliedig ar dystiolaeth ymhellach.

**Amcan 5**
**Sicrhau trefniadaeth effeithiol ac effeithlon**

## Gorolwg

Mae'r Awdurdod yn ymroddedig i gynnal effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth weinyddu, i gael y gwerth gorau am arian o'r adnoddau a ddyrannwyd. Yn ychwanegol at adrodd yn rheolaidd i Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy gydol bob blwyddyn, bydd yr Awdurdod yn cynhyrchu Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol amserol, a chofnodir y cyraeddiadau blynyddol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Canlyniad cyffredinol y gweithgaredd a gynllunnir dan yr Amcan hwn fydd datblygiad parhaus rheoli a gweinyddu effeithlon, ac yn enwedig:

- gweithredu effeithiol yr Awdurdod ar safle rhanedig a chynnal naws gorfforaethol yr Awdurdod
- hyrwyddo polisi Cyfle Cyfartal yr Awdurdod
- defnydd cynyddol o dechnoleg gwybodaeth yng ngwaith yr Awdurdod
- cynnwys egwyddorion datblygu cynaliadwy o fewn rheolaeth effeithlon yr Awdurdod.

## Cynllunio corfforaethol, monitro a rheoli

Mae'r fframwaith cynllunio presennol, sy'n defnyddio pum amcan, wedi ei ddatblygu wrth i gylch gwaith yr Awdurdod gael ei ymestyn. Bob blwyddyn, datblygir Cynllun Corfforaethol ar gyfer cyfnod o dair blynedd. O'r cynllun hwn, ac o gofio mentrau polisi'r Cynulliad a osodir allan yn y llythyr cylch gwaith blynyddol, cynhyrchir Cynllun Gweithredol yn flynyddol. Mae'r Awdurdod yn adrodd yn chwarterol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Mae'r gweithdrefnau asesu risg wedi'u datblygu yn unol ag argymhellion *Pwyllgor Turnbull*.

Mae'r Cynulliad yn bwriadu cynnal adolygiad pum mlynedd ACCAC yn 2003.

## Rheolaeth ariannol

Bydd yr Awdurdod yn parhau i roi blaenoriaeth uchel i ddatblygu a chynnal rheolaeth a gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon. Mae rheolaeth ariannol gadarn a rheoli'r holl adnoddau'n effeithiol yn rhannau hanfodol o gyfrifoldeb yr Awdurdod i gwblhau ei gylch gwaith, i sicrhau bod y defnydd cywir yn cael ei wneud o arian cyhoeddus, a darparu gwerth am arian. Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion y Memorandwm Cyllideb, y Datganiad Rheolaeth a'r Cod Talu'n Brydlon.

## Staffio a rheoli personél

O fis Mehefin 2002, roedd nifer y swyddi parhaol yn yr awdurdod yn cyfateb i 87 o staff llawn amser. Bydd yr Awdurdod yn parhau i adolygu ei anghenion staff.

Ymgymerodd yr Awdurdod ag adolygiad sylfaenol o'i system Gyflogau a Graddio yn 2002, a gweithredodd system newydd sy'n sicrhau cynnydd cyflog a chydymffurfio â deddfwriaeth Cyflog Cyfartal.

Mae'r Awdurdod wedi'i achredu fel Buddsoddwr mewn Pobl (BmP). Bydd yr Awdurdod yn gweithio i gynnal y safon gyda golwg ar ailachrediad.

Bydd yr Awdurdod yn cynnal hyfforddiant ar draws yr Awdurdod mewn meysydd megis ymwybyddiaeth hiliol a chyfleoedd cyfartal fel rhan o'i Adolygiad o'r Rhaglen Hyfforddi Gorfforaethol y bydd yn ymgymryd â hi yn ystod cyfnod y Cynllun Corfforaethol.

Ar y cyd â'r Pwyllgor Ymgynghorol Staff, bydd yr Awdurdod yn archwilio materion megis cyfle cyfartal a chydbwysedd gwaith/bywyd ymhellach.

**Gwasanaethau canolog**

Bydd y gwaith ar gyhoeddi (gan gynnwys cyfieithu, teiposod, golygu, argraffu a dosbarthu), hysbysebu ac arddangosfeydd yn parhau i gael ei gydlynu'n ganolog. Adolygir y gwasanaethau hyn ac fe'u datblygir yn unol ag anghenion newidiol yr Awdurdod. Parheir hefyd i ddarparu cyllid, caffaeliadau, personél, systemau gwybodaeth a gwasanaethau cefnogaeth weinyddol yn ganolog.

O fis Gorffennaf 2002, mae'r Awdurdod wedi bod yn gweithredu ar safle rhanedig. Mae camau gweithredol yn cael eu cymryd i gynnal naws gorfforaethol yr Awdurdod. Mae hyn yn cynnwys darparu'r gwasanaethau cynorthwyol canolog hyn yn gorfforaethol.

Mae'r Awdurdod wedi datblygu cynllun iaith Gymraeg dan ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Bydd y gwaith o weithredu'r polisi hwn yn cael ei fonitro dros gyfnod y Cynllun.

Yn unol â mentrau'r Cynulliad nod yr Awdurdod yw hyrwyddo egwyddorion datblygu cynaliadwy ar lefelau strategol a gweithredol.

**Cyfathrebu**

Mae Strategaeth Systemau Gwybodaeth yr Awdurdod wedi'i hadolygu. Bydd y rhwydwaith TG yn cael ei ddatblygu ymhellach er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fodloni anghenion yr Awdurdod. Ar hyn o bryd archwilir y gwaith o gyflwyno System Reoli Cofnodion Electronig. Wrth weithio tuag at y nodau (ar gyfer 2008) a osodwyd allan ym Mhapur Strategaeth Uned Technoleg Gwybodaeth Ganolog y Trysorlys bydd yr Awdurdod yn:

- datblygu'r defnydd o safwe ACCAC fel ffordd o leihau costau argraffu
- ceisio ehangu'r cysylltiadau i/o safwe ACCAC.

**Gweithio gyda'r QCA**

Yn ychwanegol at gostau cynnal uniongyrchol yr Awdurdod, telir ffi asiantaeth i'r QCA am waith a wneir ar ran yr Awdurdod mewn perthynas â chymwysterau. Dangosir hyn dan Amcan 1.

**Tabl 5**

| | Gweithgaredd | Cywir 2001/ 2002 £'000 | Cyllideb 2002/ 2003 £'000 | Cynllun 2003/ 2004 £'000 | Cynllun 2004/ 2005 £'000 | Cynllun 2005/ 2006 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gweinyddu medrus a rheolaeth ariannol gadarn | 3,198 | 3,633 | 4,170 | 4,509 | 4,818 |
| | Gwariant cyfalaf | | 376 | 80 | 80 | 80 |
| | Gwariant Amcan 5 | 3,198 | 4,009 | 4,250 | 4,589 | 4,898 |
| | Costau asiantaeth QCA | 200 | 200 | 210 | 220 | 230 |
| **CYFANSWM GWARIANT GWEINYDDU** | | **3,398** | **4,209** | **4,460** | **4,809** | **5,128** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dibrisiant asedau sefydlog | | 166 | 171 | 171 | 171 |
| Cost cyfalaf | | - | 10 | 10 | 10 |
| **CYFANSWM** | | **166** | **181** | **181** | **181** |

Bydd y dyraniad ariannol hwn yn caniatáu i'r Awdurdod cynnal y lefelau presennol o weithgarwch drwy gydol cyfnod y Cynllun Corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad yr Awdurdod i Gyflog Cyfartal – cyflwynwyd graddfa gyflog gynyddol – ac arian i adlewyrchu canlyniadau Gwariant Rheoli Blynyddol (AME) mewn perthynas â gwariant cyfalaf yr Awdurdod yn 2002/03 wrth iddo ehangu i adeilad newydd.

Fodd bynnag, ni chynhelir gweithgarwch ychwanegol tan fis Ebrill 2004 ar y cynharaf. Mae'r rhain yn cynnwys penodi staff i ymgymryd ag unrhyw waith newydd fydd yn deillio o'r Adolygiad 14-19, y gwaith o ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen a chynnal arolwg o'r Gymraeg mewn addysg; ac i benodi swyddog i ymdrin â materion cydraddoldeb.

# 3. ATODIADAU

## Atodiad 3.1 Aelodaeth, staffio a swyddogaethau

### Aelodaeth yr Awdurdod

Yn ôl darpariaeth Deddf Addysg 1997 bydd yr Awdurdod yn cynnwys dim llai na 10 a dim mwy na 15 aelod sy'n cael eu penodi gan y Cynulliad. Mae'n ofynnol i'r Cynulliad benodi un o'r Aelodau fel Cadeirydd a gall benodi un arall fel Is-Gadeirydd. Dyma'r aelodaeth ar 1 Mehefin 2002:

Mr Brian Connolly OBE (Cadeirydd) (penodwyd tan 30.09.04)
Mr Owen Rees CB (Is-gadeirydd) (tan 31.03.03)

Mr Alan Boxford OBE (tan 31.03.03)
Mrs Sandra Davies OBE (tan 31.03.03)
Mrs Jennifer Evans (tan 30.09.04)
Mr Robert Fowler (tan 30.09.04)
Mr Chris Kipling (tan 31.03.03)
Mrs Susan Parsons OBE (tan 31.03.03)
Dr Bryn Roberts (tan 30.09.04)
Mrs Eileen Davies (tan 30.09.04)
Mrs Katija Dew (tan 30.09.04)
Mr Roger Evans (tan 31.03.03)
Mr Emlyn R Jones OBE (tan 31.03.03)
Mr Stuart Mathias (tan 31.03.03)
Dr Pauline Peregrine (tan 31.03.03)

### Staffio

Ym mis Mehefin 2002, roedd yr Awdurdod yn cyflogi'r hyn sy'n cyfateb i 87 o staff amser llawn.

Cefnogir y Prif Weithredydd, John Valentine Williams, gan bedwar Prif Weithredydd Cynorthwyol sy'n gyfrifol am y canlynol:

- Cymwysterau a Chwricwlwm 14–19 — Linda Badham
- Cymwysterau Galwedigaethol a Dysgu Gydol oes — Ann Evans
- Cwricwlwm ac Asesu 5–14 — David Watcyn Jones
- Gwasanaethau Canolog a Chomisiynu — Huw Davies

Mae gweddill y staff yn cynnwys swyddogion pwnc ac ymgynghorwyr gyda chyfrifoldebau am y cwricwlwm, cymwysterau asesu a chomisiynu yn ogystal â staff gweinyddol a chynorthwyol.

**Swyddogaethau'r Awdurdod**

Sefydlwyd ACCAC, Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC), yn wreiddiol dan Adran 14 Deddf Diwygio Addysg 1988 fel Cyngor Cwricwlwm Cymru (CCC). Dan ddarpariaeth Adran 253 Deddf Addysg 1993 ehangwyd swyddogaethau'r Cyngor a newidiwyd yr enw i Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Cymru/the Curriculum and Assessment Authority for Wales (ACAC). Roedd y newidiadau hyn yn weithredol o 1 Ebrill 1994. Trosglwyddwyd cyfrifoldebau am arholi ac asesu disgyblion 14–19 oed mewn pynciau ar wahân i'r Gymraeg i'r Awdurdod gan yr Awdurdod Cwricwlwm Ysgol ac Asesu dan ddarpariaethau'r Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Addysg (Awdurdod Cwricwlwm Ysgol ac Asesu) 1995, a oedd yn weithredol o 21 Ebrill 1995. Roedd cyfrifoldebau tebyg mewn perthynas â'r Gymraeg eisoes wedi eu rhoi i'r Awdurdod.

Darparodd Deddf Addysg 1997 ar gyfer ailgyfansoddi'r Awdurdod drwy gyfuno ACAC â Chyngor Cenedlaethol Cymwysterau Galwedigaethol (NCVQ) (Swyddfa Cymru), rhoi enw newydd iddo ac ehangu ei gylch gwaith yn sylweddol. Gan ddechrau ar 1 Hydref 1997, derbyniodd yr Awdurdod gyfrifoldebau ychwanegol am achredu a sicrhau ansawdd yr ystod lawn o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru (ac eithrio NVQ, lle mae'r Awdurdod yn cyflawni swyddogaethau cyfamserol gyda'r Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm (QCA), ar wahân i achredu NVQs yn ffurfiol, sy'n gyfrifoldeb i'r QCA yn unig). Golygodd sefydlu ACCAC, am y tro cyntaf erioed, mai un corff yn unig yng Nghymru oedd yn gyfrifol am arolygu a chynghori ar gymwysterau academaidd a galwedigaethol a chwricwlwm yr ysgol.

Mae'r swyddogaethau a roddwyd i'r Awdurdod i gael eu defnyddio i ddatblygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru gyda golwg ar hyrwyddo ansawdd a chydlyniad mewn addysg a hyfforddiant.

**Wrth gyflawni ei swyddogaethau, rhaid i'r Awdurdod:**

(i) gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

(ii) ymddwyn yn unol ag unrhyw gynlluniau a gymeradwyir gan y Cynulliad

(iii) ystyried, lle bo'n berthnasol:

- y gofyniad bod rhaid i gwricwlwm ysgolion fod yn gytbwys ac eang, h.y. hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion yn yr ysgol a'r gymdeithas, a pharatoi disgyblion yn yr ysgol am gyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau fel oedolion
- gofynion byd diwydiant, masnach, ariannol a'r proffesiynau mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant (gan gynnwys y safonau gofynnol o ran medrusrwydd ymarferol)
- gofynion pobl ag anghenion dysgu arbennig
- gwybodaeth a roddir iddynt gan Arolygwyr Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru neu gan unrhyw gorff arall a enwir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Mae **Adran 29 Deddf Addysg 1997** yn rhoi'r swyddogaethau canlynol i'r Awdurdod:

(i) mewn perthynas â disgyblion o oed ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru:

- adolygu'n barhaus bob agwedd ar y cwricwlwm ar gyfer yr ysgolion hyn a phob agwedd ar arholiadau ysgol ac asesu
- rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm ar gyfer ysgolion o'r fath neu ag arholiadau ysgol ac asesu fel y mae'n cyfeirio atynt neu fel y gwelant yn dda
- rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac, ar gais, ei chynorthwyo i weithredu rhaglenni ymchwil a datblygu sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ar gyfer ysgolion o'r fath neu gydag arholiadau ysgol ac asesu
- cyhoeddi a dosbarthu, a chynorthwyo i gyhoeddi a dosbarthu, gwybodaeth yn ymwneud â'r cwricwlwm ar gyfer ysgolion o'r fath neu ag arholiadau ysgol ac asesu
- gwneud trefniadau gyda'r cyrff priodol i archwilio ansawdd asesiadau a wneir yn unol â threfniadau asesu
- i'r graddau y mae'n berthnasol i ysgolion o'r fath, cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddefnyddio ei grym i gymeradwyo cymwysterau allanol ac i gyflawni swyddogaethau eraill a roddir iddynt gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

(ii) mewn perthynas â phlant sy'n derbyn addysg feithrin, datblygu nodau dysgu a deunyddiau cysylltiedig

(iii) mewn perthynas ag asesu sylfaen, ac os dyrennir hynny gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r pwrpas hwnnw, achredu cynlluniau asesu sylfaen yn unol â'r meini prawf a bennir gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac a gyhoeddir gan yr Awdurdod, a chyflawni swyddogaethau eraill a roddir i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

(iv) mewn perthynas â chymwysterau academaidd a galwedigaethol, cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddefnyddio ei grym i gymeradwyo cymwysterau o'r fath ac i arfer swyddogaethau eraill a roddir iddynt gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae **Gorchymyn Addysg (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru) (Cyflwyno Swyddogaethau) 1997** yn rhoi'r swyddogaethau canlynol i'r Awdurdod:

(i) mewn perthynas â chymwysterau academaidd a galwedigaethol (ar wahân i Gymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQs) ac unrhyw gymwysterau academaidd ar lefel gradd gyntaf neu unrhyw lefel debyg neu uwch):

- adolygu'n barhaus bob agwedd ar gymwysterau o'r fath
- cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y materion hynny sy'n ymwneud â chymwysterau o'r fath, a drosglwyddir iddynt ganddi neu fel a welont yn dda
- cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar raglenni ymchwil a datblygu ar gyfer yr amcanion sy'n gysylltiedig â chymwysterau o'r fath, a chynorthwyo'r Cynulliad i wneud y gwaith ymchwil hwnnw os gofynnir am hynny
- darparu cefnogaeth a chyngor i bobl sy'n darparu cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau o'r fath gyda golwg ar sefydlu a chynnal safonau uchel wrth ddarparu cyrsiau o'r fath
- cyhoeddi a dosbarthu, a chynorthwyo i gyhoeddi a dosbarthu, gwybodaeth yn ymwneud â chymwysterau o'r fath
- datblygu a chyhoeddi meini prawf ar gyfer achredu cymwysterau o'r fath
- achredu cymwysterau o'r fath a anfonir i gael eu hachredu, os ydynt yn bodloni'r meini prawf hynny

(ii) Mewn perthynas â Chymwysterau Cenedlaethol Galwedigaethol, ac ar yr un pryd â'r Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm (QCA), yr holl swyddogaeth hynny a restrir yn (i) uchod, ac eithrio'r swyddogaeth o achredu unrhyw gymwysterau o'r fath a anfonir i gael eu hachredu, os ydynt yn bodloni'r meini prawf hynny.

Ychwanegir swyddogaethau eraill yn sgil Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 a'r Mesur cyfredol.

## Atodiad 3.2 Crynodeb o wariant arfaethedig fesul amcan

**Tabl 6**

Mae tabl 6 yn nodi gwariant arfaethedig yr Awdurdod fesul amcan.

| | Amcan | Cywir 2001/ 2002 £'000 | Cyllideb 2002/ 2003 £'000 | Cynllun 2003/ 2004 £'000 | Cynllun 2004/ 2005 £'000 | Cynllun 2005/ 2006 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **GWARIANT FESUL RHAGLEN** | | | | | | |
| 1 | Cymwysterau | 1,106 | 1,684 | 2,020 | 1,505 | 1,335 |
| 2 | Cwricwlwm ac asesu | 4,825 | 4,917 | 4,784 | 5,200 | 5,363 |
| 3 | Comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth | 1,192 | 1,400 | 1,450 | 1,500 | 1,550 |
| 4 | Ymchwil a gwybodaeth | 209 | 235 | 285 | 295 | 295 |
| **CYFANSWM GWARIANT Y RHAGLEN** | | **7,332** | **8,236** | **8,539** | **8,500** | **8,543** |
| 5 | Gwariant ar weinyddu | 3,198 | 3,633 | 4,170 | 4,509 | 4,818 |
| | Gwariant cyfalaf | | 376 | 80 | 80 | 80 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | | **10,530** | **12,245** | **12,789** | **13,089** | **13,441** |
| **INCWM** | | **(113)** | **(70)** | **(75)** | **(75)** | **(75)** |
| **CYFANSWM GWARIANT NET** | | **10,417** | **12,175** | **12,714** | **13,014** | **13,366** |
| Dibrisiad yr asedau sefydlog /Cost cyfalaf | | | 166 | 181 | 181 | 181 |
| **CYFANSWM GWARIANT NET** | | **10,417** | **12,341** | **12,895** | **13,195** | **13,547** |
| **ARIANNWYD GAN:** | | | | | | |
| Grant mewn cymorth | | 10,304 | 12,149 | 12,895 | 13,195 | 13,547 |
| Dygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol | | 113 | 192 | - | - | - |
| Swm sy'n ddyledus gan QCA | | | | | | |
| **CYFANSWM INCWM** | | **10,417** | **12,341** | **12,895** | **13,195** | **13,547** |

## Atodiad 3.3 Crynodeb o ddangosyddion perfformiad a mesurau allbwn

**Amcan 1**

| **DANGOSYDD PERFFORMIAD: Datblygu fframwaith cydlynol ac integredig o gymwysterau o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion Cymru; gwella lefelau sgiliau a chyrhaeddiad addysgol a hawlio hyder y cyhoedd** | **MESURAU ALLBWN** | | |
|---|---|---|---|
| | **2003/2004** | **2004/2005** | **2005/2006** |
| 1. Asesu cymwysterau a gyflwynir gan Gyrff Dyfarnu i'w cynnwys yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, ac achredu neu gyfeirio cyflwyniadau o'r fath o fewn amserlenni a gyhoeddwyd | Cytuno amserlenni a gyhoeddwyd gan QCA a CCEA | | |
| 2. Cytuno â QCA a CCEA ar amserlen ar gyfer rhaglen fonitro ôl-achredu'r flwyddyn ganlynol erbyn y mis Medi blaenorol | Erbyn mis Medi 2003 ar gyfer rhaglen 2004/05 | Erbyn mis Medi 2004 ar gyfer rhaglen 2005/06 | Erbyn mis Medi 2005 ar gyfer rhaglen 2006/07 |
| 3. Cynhyrchu adroddiadau ar ganlyniadau gwaith ôl-achredu yn flynyddol | Cynhyrchu adroddiadau ar o leiaf 10 o weithgareddau | Cynhyrchu adroddiadau ar o leiaf 10 o weithgareddau | Cynhyrchu adroddiadau ar o leiaf 10 o weithgareddau |
| 4. Parhau i adolygu trefniadau rheoleiddio | Adrodd i Weinidogion erbyn mis Hydref 2003 | Dosbarthu codau a meini prawf diwygiedig erbyn mis Hydref 2004 | Monitro trefniadau diwygiedig erbyn mis Hydref 2005 |

**Amcan 2**

| **DANGOSYDD PERFFORMIAD: Sicrhau bod y fframwaith cwricwlwm ac asesu ar gyfer ysgolion yn bodloni anghenion pob disgybl ac yn gweithio'n effeithlon ac effeithiol** | **MESURAU ALLBWN** | | |
|---|---|---|---|
| | **2003/2004** | **2004/2005** | **2005/2006** |
| 1. Cynhyrchu adroddiadau blynyddol ar y *Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu* yn dilyn tasgau/profion statudol Cyfnod Allweddol 2 a 3 | Tach | Tach | Tach |
| 2. Datblygu a dosbarthu deunyddiau asesu (tasg a phrawf) statudol a llyfrynnau trefniadau asesu ar gyfer y pedwar pwnc craidd (fel bo'n briodol) yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 i'w defnyddio gydag oddeutu 100,000 o ddisgyblion | Tasgau a llyfrynnau trefniadau asesu: Tachwedd Profion: Mai | Tasgau a llyfrynnau trefniadau asesu: Tachwedd Profion: Mai | Tasgau a llyfrynnau trefniadau asesu: Tachwedd Profion: Mai |
| 3. Parhau i geisio gwelliannau yn y trefniadau dosbarthu ar gyfer y deunyddiau uchod, i'w monitro trwy gyfeirio at: | | | |
| • sicrhau bod canran benodol o'r ysgolion yn derbyn y deunyddiau erbyn y dyddiad targed, i'w osod wythnos cyn y dyddiad derbyn olaf | 99% | 99% | 99% |
| • cyfyngu nifer y cwynion a dderbynnir gan ysgolion am gynnwys a dosbarthu pecynnau i ganran benodol o'r cyfanswm o ysgolion cysylltiedig â'r dosbarthu | 2% | 1% | 1% |

**Amcan 3**

| **DANGOSYDD PERFFORMIAD: Sicrhau bod y deunyddiau a gomisiynwyd yn ymateb i anghenion a nodwyd, eu bod o ansawdd uchel ac yn cynnig gwerth am arian** | **MESURAU ALLBWN** | | |
|---|---|---|---|
| | **2003/2004** | **2004/2005** | **2005/2006** |
| 1. Ymgynghori'n eang gydag athrawon ac unigolion allweddol eraill am anghenion deunyddiau ystafell ddosbarth Cymraeg a dwyieithog ar draws y cwricwlwm | Cynnull o leiaf 10 o baneli pwnc | Cynnull o leiaf 10 o baneli pwnc | Cynnull o leiaf 10 o baneli pwnc |
| 2. Sicrhau bod deunyddiau a gynhyrchir yn bodloni anghenion a nodwyd ac yn cael eu defnyddio'n fwy eang | Cynnal gwerthiant gros dros £500,000 | Cynnal gwerthiant gros dros £500,000 | Cynnal gwerthiant gros dros £500,000 |

**Amcan 4**

| **DANGOSYDD PERFFORMIAD: Gwella ffynonellau gwybodaeth yr Awdurdod gydag ymchwil wedi'i thargedu i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei nodau craidd a darparu gwybodaeth amserol o ran datblygiad mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru** | **MESURAU ALLBWN** | | |
|---|---|---|---|
| | **2003/2004** | **2004/2005** | **2005/2006** |
| 1. Darparu gwybodaeth glir, amserol ar faterion yn ymweud â'r cwricwlwm, asesu, arholi a chomisiynu trwy: | | | |
| • ddosbarthu 20,000 copi o bob rhifyn o'r Cylchlythyr | Rhifyn bob tymor | Rhifyn bob tymor | Rhifyn bob tymor |
| • arddangos mewn Eisteddfodau/digwyddiadau priodol | 2 arddangosfa | 2 arddangosfa | 2 arddangosfa |
| • cynnull cyfarfodydd rheolaidd gyda Chymdeithasau Athrawon a fforymau corff dyfarnu | 3 gwaith | 3 gwaith | 3 gwaith |
| • diweddaru'r safwe'n rheolaidd | Chwarterol o leiaf | Chwarterol o leiaf | Chwarterol o leiaf |
| 2. Darparu ystadegau ar gymwysterau trwy: | | | |
| • gyhoeddi 2,000 o gopïau o *Llwyddiant mewn Arholiadau yng Nghymru* (i gynnwys TAAU, TAG U/UA, TGAU, GNVQ a Lefel Mynediad, yn ogystal ag amrywiaeth o NVQs a chymwysterau eraill) | Blynyddol | Blynyddol | Blynyddol |

**Amcan 5**

| DANGOSYDD PERFFORMIAD: Sicrhau gweinyddiaeth effeithlon ac effeithiol trwy reolaeth gorfforaethol ac ariannol gadarn | 2003/20 |
|---|---|
| 1. Adrodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru fel hyn:<br><br>i) cyflwyno adroddiadau Perfformiad Chwarterol<br><br>ii) cyflwyno Cynlluniau Corfforaethol (a'u cyhoeddi wedi hynny)<br><br>iii) cyflwyno Cynlluniau Gweithredol<br><br>iii) cyflwyno Adroddiadau Blynyddol (a'u cyhoeddi wedi hynny) | <br><br>Hyd, Ion, Gorff<br><br>Gorff<br><br>Mawrt<br><br>Medi |
| 2. **Cydymffurfio** â Chod Talu'n Brydlon | 97.5% o anfonebau diamheuol cael eu talu pen 30 diw |
| 3. Cymryd camau i weithredu polisi cyfle cyfartal a'i fonitro wedi hynny | Darparu adroddiad monitro blynyddol |